

# Pennaeth Gwasanaethau Plant

Pecyn Recriwtio



Cyngor Bwrdeistref Sirol

**Blaenau Gwent**

County Borough Council

## Annwyl Ymgeisydd

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn dod yn Bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant nesaf Cyngor Blaenau Gwent. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â ni ac i adeiladu ar ein llwyddiannau wrth i ni geisio adfywio'r gwasanaeth i sicrhau ei fod yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Rydym yn Gyngor modern ac economaidd uchelgeisiol sydd wedi elwa ar swm aruthrol o fuddsoddiad adfywio yn y blynyddoedd diwethaf ac sy'n mwynhau cyfnod cyffrous o drawsnewid gan geisio cyfleoedd newydd i wella'r hyn a wnawn, a chreu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy i ein cymunedau.

Mewn hinsawdd ariannol heriol, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau rheolaeth ariannol gref a chwilio am ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau. Er gwaethaf yr angen i wneud penderfyniadau anodd, mae gennym hanes profedig o weithredu modelau darparu gwasanaeth amgen a gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ein hamcanion.

Mae ein Pennaeth Gwasanaethau Plant yn rôl allweddol o fewn ein Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Arwain Corfforaethol ehangach a bydd yn cefnogi'r Cyfarwyddwr yn weithredol wrth arwain a gosod y cyfeiriad a'r weledigaeth gyffredinol gan sicrhau bod y swyddogaethau statudol perthnasol yn cael eu cyflawni.

Rydym yn chwilio am uwch arweinydd profiadol sy'n rhannu ein gweledigaeth, gwerthoedd a brwdfrydedd, ac a fydd yn cyfrannu'n weithredol at ddull 'un Cyngor' a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor.

Os ydych chi'n rhannu ein hangerdd dros wasanaethau cyhoeddus ac os yw'r cyfle hwn i ymuno â ni i gynnig help, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau ein preswylwyr yn eich cyffroi, edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.



**Tanya Evans**  
**Cyfarwyddwr Dros Dro**

<b>Teitl:</b>	Pennaeth Gwasanaethau Plant
<b>Lleoliad:</b>	Gweithio Ystwyth
<b>Cyfarwyddiaeth:</b>	Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>Rhif y Swydd:</b>	BG03507
<b>Cyflog:</b>	JNC 5 (£78,825 - £86,507 y flwyddyn)
<b>Oriau:</b>	37 awr
<b>Contract:</b>	Parhaol

## Crynodeb o'r Swydd

### ***Arwain Dyfodol Gwasanaethau Plant ym Mlaenau Gwent!***

Ydych chi'n angerddol am drawsnewid bywydau plant a phobl ifanc? A oes gennych chi'r weledigaeth a'r egni i arwain tîm sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol? Mae Cyngor Blaenau Gwent yn chwilio am Bennaeth Gwasanaethau Plant ymroddedig ac angerddol i arwain a siapio dyfodol ein gwasanaethau plant. Dyma'ch cyfle i arwain cynlluniau effeithiol, cydweithio â gweithwyr proffesiynol ymroddedig, a chreu amgylchedd anogol lle gall pob plentyn ffynnu. Ymunwch â ni a byddwch ar flaen y gad o ran newid cadarnhaol, gan gael effaith barhaol ar fywydau plant yn ein cymuned.

## Ynghylch y rôl

Fel y Pennaeth Gwasanaethau Plant, byddwch yn chwarae rhan hollbwysig wrth lunio cyfeiriad strategol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Gan adrodd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd eich arweinyddiaeth yn allweddol i feithrin diwylliant o gydweithio, parch a rhagoriaeth. Mae cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys datblygu a gweithredu cynlluniau strategol, ar gyfer gwasanaethau statudol ac ataliol gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Blynyddoedd Cynnar a darpariaeth chwarae. Byddwch hefyd yn aelod gweithgar o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru ac yn goruchwylio Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'ch tîm i sicrhau llesiant, diogelwch a datblygiad cadarnhaol y plant yn ein gofal.

Byddwch yn fentor, yn eiriolwr ac yn fodel rôl ar gyfer eich tîm. Byddwch yn dyfeisio a gweithredu cynlluniau hyfforddi staff, yn hyrwyddo datblygiad gyrfa, ac yn meithrin diwylliant o ddysgu a thwf parhaus. Bydd cydweithredu a chyfathrebu wrth wraidd eich dull gweithredu, gan ymgysylltu ag asiantaethau partner, cymunedau lleol, a rhanddeiliaid i feithrin perthnasoedd ystyrion a gwella'r rhwydwaith cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Byddwch hefyd yn dylanwadu ar bolisi ac yn ysgogi arloesi yn y gwasanaethau plant, gan sicrhau bod ein harferion yn cyd-fynd â'r ymchwil diweddaraf ac arferion gorau yn y maes. Bydd eich

arweinyddiaeth strategol yn arwain ein hymdrechion i greu amgylchedd cyfannol a chefnogol i bob plentyn yn ein gofal.

### **Amdanoch chi**

Rydym yn chwilio am arweinydd deinamig a gweledigaethol gyda hanes profedig yn y gwasanaethau plant. Bydd eich sgiliau cynllunio strategol a'ch profiad o feithrin partneriaethau traws-asiantaeth yn hanfodol i yrru ein blaenoriaethau yn eu blaenau. Fel arweinydd, byddwch yn ysbrydoli ac yn ysgogi eich tîm i ddarparu gwasanaethau eithriadol, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd. Mae ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, ymarfer gwrth-wahaniaethol, a diogelu yn hanfodol. Bydd eich gallu i reoli adnoddau'n effeithiol ac arloesi o fewn cyfyngiadau ariannol yn allweddol i'ch llwyddiant.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd nid yn unig wedi dangos llwyddiant ond sydd hefyd yn awyddus i wella ei alluoedd arweinyddiaeth strategol mewn amgylchedd deinamig ac ysgogol. Byddwch yn feddyliwr arloesol sy'n gallu llunio a dylanwadu ar ddiwylliant y gweithle, gyda thalent unigryw i adeiladu timau uchel eu cymhelliant, grymusol a pherfformiad uchel. Os ydych chi'n barod i ddod â'ch angerdd a'ch arbenigedd i rôl lle gallwch chi gael effaith barhaol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

### **Amdanom ni**

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi ymrwymo i greu amgylchedd cefnogol a chynhwysol lle mae pob plentyn yn cael y cyfle i ffynnu. Rydym yn gwerthfawrogi cydweithio, arloesi a rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau. Mae ein tîm ymroddedig yn gweithio'n ddiflino i gefnogi ac amddiffyn aelodau mwyaf bregus ein cymuned. Drwy ymuno â ni, byddwch yn rhan o sefydliad angerddol a blaengar sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Yng Nghyngor Blaenau Gwent, rydym yn blaenoriaethu llesiant a thwf proffesiynol ein gweithwyr. Dyma ychydig o'r hyn rydym yn ei gynnig:

#### **Cyflog Cystadleuol:**

Rydym yn cynnig pecyn cyflog cystadleuol i gydnabod eich sgiliau a'ch arbenigedd.

#### **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Rhagorol:**

Mwynhewch dawelwch meddwl gyda'n buddion pensiwn cadarn.

#### **Dysgu a Datblygu Parhaus:**

Rydym yn cefnogi eich datblygiad gyrfa trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus.

#### **Lwfansau Gwyliau Blynyddol Hael:**

Mwynhewch ddigon o amser i ffwrdd i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

#### **Amgylchedd Gwaith Cefnogol:**

Ymunwch â thîm sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniad ac sy'n meithrin diwylliant cydweithredol a chynhwysol yn y gweithle.

Ymunwch â ni a chychwyn ar yrfa werth chweil lle gallwch gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a theuluoedd yn ein cymuned. Gwnewch gais nawr a byddwch yn rhan o dîm sydd wedi ymrwymo i lunio dyfodol mwy disglair i blant a phobl ifanc Blaenau Gwent.

## **Eisiau gofyn cwestiwn i ni?**

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â:

Tanya Evans | [tanya.evans@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:tanya.evans@blaenau-gwent.gov.uk) | 07989566091

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch y Ffurflen Gais am Swydd yn Gymraeg.

Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.

## Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>Pennaeth Gwasanaethau Plant</b>		
<b>Rhif y Swydd:</b>	<b>BG03507</b>	<b>Gradd:</b>	<b>JNC 5</b>
<b>Safle:</b>	<b>Gweithio Ystwyth</b>	<b>Oriau Gwaith:</b>	<b>37 awr yr wythnos</b>
<b>Lwfans Defnyddiwr Car:</b>		<b>Datgeliad:</b>	<b>Manylach</b>
<b>Cyswllt</b>	<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	<b>Wedi'i ddiweddarau:</b>	<b>Chwefror 2024</b>

Dynodir y swydd hon yn swydd â chyfyngiad gwleidyddol yn unol â meini prawf 'y swydd benodedig'

### Prif Ddiben y Swydd

Yn atebol i: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

### Yn gyfrifol am:

Arwain ar lefel strategol ar gyfer gwaith yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer yr Adran Plant.

### Prif Gyfrifoldebau

1. Cydymffurfio â'r adrannau perthnasol o ddatganiad polisi'r Awdurdod ar lechyd, Diogelwch a Lles yn y Gwaith.
2. Cadw at egwyddorion y Polisi Cydraddoldeb Corfforaethol a sicrhau ymrwymiad i ymarfer gwrth-wahaniaethol.
3. Cyfrannu at arweinyddiaeth gorfforaethol yr adran er mwyn hyrwyddo ymdeimlad clir o gyfeiriad a phwrpas sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth, gwerthoedd, polisiâu a blaenoriaethau.

4. Datblygu cynlluniau strategol ar gyfer Gwasanaethau Plant trwy bartneriaethau traws-asiantaethol priodol i ddatblygu gwasanaethau ataliol effeithiol i blant yn enwedig gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol, Addysg, yr Heddlu a'r sector gwirfoddol.
5. Cynllunio, darparu a chomisiynu, gan ddarparwyr gwasanaethau mewnol ac allanol, wasanaethau ataliol priodol i blant.
6. Arwain ar ran yr Awdurdod ar Fwrdd Diogelu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.
7. Darparu arweinyddiaeth i Wasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru sy'n cael ei gynnal gan Flaenau Gwent a bod yn aelod rhagweithiol o'r Bwrdd Llywodraethu Mabwysiadu Cenedlaethol.
8. Darparu arweiniad i Faethu Cymru ar ran y rhanbarth a bod yn aelod gweithgar o Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth Arwain Maethu Cymru.
9. Darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth ar y cyd o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent/Caerffili.
10. Ymgymryd â Chyfrifoldebau Gwneud Penderfyniadau'r Asiantaeth mewn perthynas â'r Paneli Mabwysiadu a Maethu.
11. Cefnogi Aelodau etholedig yn eu rôl fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'u dealltwriaeth o bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau plant.
12. Rheoli a chyfrannu at foderneiddio Gwasanaethau Plant drwy ddatblygu sefydliadol a chynllunio'r gweithlu.
13. Cyfrannu at gynllunio camau gweithredu yn dilyn argymhellion a wnaed gan reoleiddwyr allanol er mwyn gwella safonau darparu gwasanaeth yn barhaus.
14. Cyfrannu'n weithredol at agenda'r Bwrdd Partneriaeth Plant a'i llunio er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu.
15. Cymryd rhan weithredol a chyfrannu at nifer o fyrddau rhanbarthol a chenedlaethol.
16. Sicrhau bod Gwasanaethau Plant yn cael eu rheoli o fewn y terfynau ariannol penodedig, gan gynnwys gwneud y mwyaf o bob ffynhonnell ariannu allanol.
17. Sicrhau bod gan y Gwasanaethau Plant weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, sydd â chymwysterau a phrofiad i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
18. Cynrychioli'r Cyfarwyddwr fel y bo'n briodol.

19. Sicrhau mynediad a thriniaeth gyfartal i bob defnyddiwr gwasanaeth.



## Manyleb y Person - Pennaeth Gwasanaethau Plant

### 1. Cymwysterau a phrofiad

Cymwysterau/profiad perthnasol	Dull Asesu				
	Hanfodol / Dymunol	Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall (nodwch)	Cyfnod Prawf
Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol (Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol, DipSW, CQSW, CSS)	Hanfodol	√		Dogfen	
Cymhwyster Rheoli	Hanfodol	√		Dogfen	
<b>Profiad arall</b>					
Llwyddiant blaenorol profedig o redeg gwasanaethau gofal cymdeithasol mawr i blant ar lefel uwch yn llwyddiannus gan gymryd rhan yn y gwaith o lunio a gweithredu amcanion, polisïau a strategaethau adrannol.	Hanfodol	√	√		
Tystiolaeth o reoli adnoddau ac arian yn llwyddiannus, gan gynnwys tystiolaeth o ddatrys blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, llunio cyllidebau, defnyddio gweithdrefnau monitro a rheoli trwyadl a gwneud y mwyaf o'r grantiau sydd ar gael.	Hanfodol	√	√		
Hanes o lwyddiant wrth gyfathrebu ac ymgysylltu ag ystod eang o gyrff mewnol ac allanol, meithrin partneriaethau a pherthnasoedd gwaith cynhyrchiol a hyrwyddo enw da a diddordebau sefydliadol yn gadarnhaol.	Hanfodol	√	√		
Llwyddiant y gellir ei ddangos wrth reoli ac ysgogi timau i gyflawni gwelliannau sylweddol, cynaliadwy i wasanaethau a chanlyniadau rhagorol, gyda phrofiad o ddatblygu a chynnal diwylliant sy'n harneisio cryfderau a thalentau gweithwyr ar bob lefel.	Hanfodol	√	√		
Tystiolaeth o hyrwyddo rheoli newid yn llwyddiannus o fewn amgylchedd cymhleth a heriol; datblygu, arwain a gweithredu strategaethau a rhaglenni newid i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaeth, canlyniadau llwyddiannus a newidiadau sylweddol i wasanaethau gweithredol.	Hanfodol	√	√		
Tystiolaeth o sefydlu ac arwain diwylliant perfformiad cryf a gwerthusiad effeithiol o berfformiad ac ansawdd gwasanaeth sy'n cynnwys defnyddwyr wrth godi safonau a pherfformiad.	Hanfodol	√	√		
Hanes blaenorol o weithio'n effeithiol o fewn amgylchedd gwleidyddol, gan ddarparu cyngor ac arweiniad clir a chytbwys ar faterion strategol i gyflawni amcanion gwasanaeth.	Hanfodol	√	√		

<b>Gwybodaeth/Sgiliau</b>					
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion a'r cyfleoedd polisi Gofal Cymdeithasol ac Iechyd allweddol sy'n wynebu comisiynwyr a darparwyr Awdurdodau Lleol, yn enwedig yng ngoleuni canlyniadau gwasanaeth i Blant sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.	Hanfodol	√	√		

<b>2. Gofynion Arbennig</b>	Hanfodol / Dymunol	Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall (nodwch)	Cyfnod Prawf
Meddu ar drwydded yrru gyfredol a mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith.	Hanfodol	√			

<b>2. Gofynion Iaith Gymraeg (dewiswch un o'r canlynol)</b>	Hanfodol / Dymunol	Ffurflen gais	Cyfweliad	Arall (nodwch)	Cyfnod prawf
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol (lefel 0 ym mhob Lefel iaith Gymraeg uchod).	Dymunol	√			

	Lefel 0	Lefel 1 Mynediad	Lefel 2 Sylfaen	Lefel 3 Canolradd	Lefel 4 Uwch	Lefel 5 Hyfedredd
Gwranddo/Siarad	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Darllen/Deall	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ysgrifennu	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Gweler "[Canllawiau Sgiliau Iaith Gymraeg](#)" ar wefan Blaenau Gwent am ragor o wybodaeth am y lefelau uchod.

#### 4. Cymwyseddau Personol

Ystyrir bod pob cymhwysedd yn Hanfodol, er y cydnabyddir y gellir cyflawni rhai dros gyfnod o amser. Disgwylir i bob gweithiwr ddatblygu eu cymwyseddau yn barhaus yn unol â'r fframwaith priodol.

Yn ogystal â'r rhai a asesir fel rhan o'r broses recriwtio, bydd cymwyseddau'n cael eu hasesu yn ystod y cyfnod prawf ac wedi hynny trwy gynllun hyfforddi perfformiad yr Awdurdod.

#### Dull Asesu

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Arwain Pobl</b>	Yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ac yn fodol rôl i eraill.				✓
	Yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol ac yn atebol am gamau gweithredu.				✓
	Yn parchu a gwerthfawrogi cyfraniad ac uchelgais pobl eraill.				✓
	Yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn weithredol.				✓
	Yn herio ymddygiad/agweddau annerbyniol.				✓
	Yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau.				✓
	Yn amddiffyn cydweithwyr rhag beirniadaeth amhriodol.				✓
	Yn dangos ac yn enghraifft o gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.				✓

#### Dull Asesu

Pwnc	Cymwyseddau	Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Cyflawni'r Weledigaeth</b>	Yn cyfleu safbwynt cymhellol o'r dyfodol.				✓
	Yn sicrhau bod y weledigaeth yn ystyrlon i bawb.				✓
	Yn herio'r weledigaeth yn briodol.				✓
	Yn hyrwyddo'r weledigaeth yn rhagweithiol i eraill.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Asesu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Gosod a Chyflawni Targedau Uchelgeisiol</b>	Yn ymrwymedig i wella perfformiad eich hun ac eraill yn barhaus.				✓
	Yn cytuno ar dargedau perfformiad uchelgeisiol a blaenoriaethau ar gyfer eich hunan ac eraill.				✓
	Yn gosod safonau uchel ac yn cadw'ch hun ac eraill yn canolbwyntio ar ganlyniadau.				✓
	Yn rhoi adborth rheolaidd, adeiladol ar berfformiad gwasanaeth / tîm / unigol.				✓
	Yn cydnabod ac yn dathlu llwyddiant.				✓
	Yn herio perfformiad gwael yn briodol.				✓
	Yn ceisio cyfleoedd dysgu o ganlyniadau.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Asesu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Grymuso Ein Pobl</b>	Yn annog a datblygu atebolrwydd personol mewn eraill.				✓
	Yn gweithio i nodi anghenion hyfforddi a datblygu mewn eraill.				✓
	Yn annog eraill i feddwl drostynt eu hunain.				✓
	Yn hyrwyddo cymryd risgiau ac yn cefnogi'n briodol.				✓
	Yn defnyddio ac yn parchu sgiliau, profiad ac uchelgais pobl eraill ar bob lefel.				✓
	Yn hyrwyddo ac yn arddangos dysgu a datblygiad personol a phroffesiynol ynoch eich hun ac eraill.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Asesu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Cyfathrebu</b>	Yn creu ac yn annog cyfathrebu dwy ffordd y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad.				✓
	Yn defnyddio dulliau cyfathrebu priodol a manwl gywir.				✓
	Yn meddu ar hygreddedd personol gydag amrywiaeth o wahanol grwpiau ac yn defnyddio rhwydweithiau'n effeithiol.				✓
	Yn cyfathrebu'n gadarnhaol ac yn barchus.				✓
	Yn gwranddo'n weithredol a pharchu safbwyntiau pobl eraill.				✓
	Yn gwirio dealltwriaeth eich hun ac eraill.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Asesu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Gwneud Penderfyniadau Gwybodus</b>	Yn barod i weithredu a bod yn atebol.				✓
	Yn ystyried datrys problemau fel cyfle i wella.				✓
	Yn cynnwys eraill mewn gwneud penderfyniadau.				✓
	Yn camu'n ôl ac yn cymryd golwg ehangach.				✓
	Yn defnyddio tystiolaeth i herio neu gefnogi safbwynt.				✓
	Yn ystyried goblygiadau penderfyniadau arfaethedig.				✓
	Yn sicrhau bod penderfyniadau'n gysylltiedig â gwella perfformiad yn barhaus.				✓
	Yn meddu ar yr hyder i wneud penderfyniadau				✓

	uchelgeisiol, anodd neu amhoblogaidd.				
	Yn gallu cyfiawnhau ac egluro penderfyniadau.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Asesu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/Hyfforddi Perfformiad
<b>Gweithio mewn Partneriaeth</b>	Yn deall partneriaethau yng nghyd-destun y “darlun mawr”.				✓
	Yn hyrwyddo ac yn cymryd rhan weithredol mewn partneriaethau aml-asiantaeth i wella gwasanaethau i'r dinesydd yn barhaus.				✓
	Yn rhwydweithio'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol.				✓
	Yn cydnabod, yn parchu ac yn defnyddio arbenigedd pobl eraill.				✓
	Yn rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol.				✓
	Yn chwilio am y bobl fwyaf priodol i gyfrannu at weithio mewn partneriaeth.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Asesu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/Hyfforddi Perfformiad
<b>Rheoli'r Rhyngwyneb Gwleidyddol</b>	Yn deall yr amgylchedd gwleidyddol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol				✓
	Yn parchu ac yn cadw at y cod ymddygiad proffesiynol ac yn cadw at egwyddorion cyfyngiadau gwleidyddol.				✓
	Yn sefydlu a gwella'n barhaus rhyngweithio cadarnhaol a phriodol gyda'r holl Gynghorwyr.				✓
	Yn codi materion a herio'n adeiladol mewn modd priodol a sensitif.				✓

	Yn sicrhau bod eraill yn deall dimensiwn gwleidyddol eu gwaith.				✓
	Yn darparu cyngor proffesiynol amserol, adeiladol o ansawdd uchel i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau gwleidyddol.				✓

Pwnc	Cymwyseddau	Dull Aseu			
		Ffurflen Gais	Cyfweliad	Arall e.e. cyflwyniad, grŵp trafod, efelychu, ac ati (nodwch)	Cyfnod Prawf/ Hyfforddi Perfformiad
<b>Gwthio'r Ffiniau</b>	Yn herio'r <i>status quo</i> yn rheolaidd ac yn adeiladol.				✓
	Yn gadarnhaol ynghylch newid ac yn nodi manteision posibl i'r dinesydd.				✓
	Yn manteisio ar botensial arloesedd a chreadigrwydd eraill.				✓
	Yn ystyried gwahanol ddulliau/ymagweddau.				✓
	Yn annog eraill i awgrymu syniadau newydd.				✓
	Yn cefnogi a datblygu syniadau pobl eraill.				✓
	Yn edrych yn greadigol y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad am syniadau newydd ac yn mynd ati i rannu arfer da.				✓

## Telerau ac Amodau Allweddol / Buddiannau Gweithwyr

<b>Cyflog</b>	<p>JNC5 - Ystod pum pwynt ar 01.04.2024</p> <table> <tr> <td>Isafswm</td> <td>£78,825</td> </tr> <tr> <td>2<sup>il</sup></td> <td>£80,725</td> </tr> <tr> <td>3<sup>ydd</sup></td> <td>£82,672</td> </tr> <tr> <td>4<sup>ydd</sup></td> <td>£84,584</td> </tr> <tr> <td>Uchafswm</td> <td>£86,507</td> </tr> </table> <p>Telir cyflog trwy drosglwyddiad credyd uniongyrchol ar yr 28ain diwrnod o'r mis.</p>	Isafswm	£78,825	2 <sup>il</sup>	£80,725	3 <sup>ydd</sup>	£82,672	4 <sup>ydd</sup>	£84,584	Uchafswm	£86,507
Isafswm	£78,825										
2 <sup>il</sup>	£80,725										
3 <sup>ydd</sup>	£82,672										
4 <sup>ydd</sup>	£84,584										
Uchafswm	£86,507										
<b>Amodau Gwasanaeth</b>	<p>Y telerau ac amodau cyffredinol fydd telerau ac amodau'r Cydbwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol a, lle bo'n berthnasol, telerau ac amodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent y cytunwyd arnynt yn lleol.</p> <p>Mae'r swydd hon yn amodol ar gyfres o wiriadau cyn cyflogi gan gynnwys gwiriad Safonol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>										
<b>Cyfyngiadau Gwleidyddol</b>	O dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 diffinnir y swydd hon fel un sydd â chyfyngiad gwleidyddol.										
<b>Gweithio Ystwyth</b>	Mae'r swydd hon wedi'i dynodi'n Weithiwr Ystwyth ac yn gweithio gartref.										
<b>Gwyliau Blynyddol</b>	Uchafswm o 31 diwrnod ynghyd â 10 diwrnod o wyliau statudol / statudol ychwanegol.										
<b>Cynllun Pensiwn</b>	Bydd y sawl a benodir yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.										
<b>Oriau gweithio</b>	Yr wythnos waith safonol yw un o 37 awr a bydd cynllun oriau gwaith hyblyg yn berthnasol.										
<b>Milltiroedd</b>	Polisi'r Cyngor yw ad-dalu aelodau staff am filltiroedd busnes. Mae cynllun y Cyngor yn seiliedig ar gyfraddau CThEM.										
<b>Cynllun Prynu Car â Chymorth</b>	Bydd y deiliad swydd yn gymwys i gael benthyciad car.										
<b>Cynlluniau Gwobrwyo Staff BG</b>	Mynediad i ostyngiadau ar siopa stryd fawr, bwydydd, teithio, bwyta allan, atyniadau a mwy.										
<b>Rhaglen Cymorth i Weithwyr</b>	Mae rhaglen cymorth i weithwyr ar gael sy'n cynnig gwasanaeth cwnsela a mynediad at ystod o wasanaethau cymorth dros y ffôn ac ar-lein.										
<b>Darpariaeth gwyliau arbennig</b>	Mae ystod eang o ddarpariaethau absenoldeb arbennig ar gael hefyd.										



# Amserlen Recriwtio



Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r dyddiadau allweddol yn y broses recriwtio:

Dyddiad	Gweithgaredd
12 Gorffennaf 2024	Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais
15 Gorffennaf 2024	Pwyllgor Penodi – Llunio rhestr fer
19 Gorffennaf 2024	Canolfan Asesu
30 Gorffennaf 2024	Pwyllgor Penodi - Cyfweliad Terfynol

**Diolch am ddangos diddordeb yn y rôl hon ac am drafodaeth anffurfiol cysylltwch â:**

Tanya Evans, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Gwasanaethau  
Cymdeithasol: [Tanya.Evans@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:Tanya.Evans@blaenau-gwent.gov.uk)